





# Briff Ymgynghori Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym Conwy

Cyfnod Ymgynghori rhwng
30 Medi 2022 ac
11 Tachwedd 2022

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Adran 1 - Cyflwyno Ailgartrefu Cyflym

### Cefndir i Ailgartrefu Cyflym

Mae Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i wneud digartrefedd yn:

- Brin - Mae pobl yn cael eu hatal rhag bod yn ddigartref yn y lle cyntaf
- Byrhoedlog - Mae pobl yn cael ymateb cyflym ac effeithiol os ydyn nhw'n mynd yn ddigartref
- Ddim yn digwydd eto - Nad yw pobl yn profi sawl pennod o ddigartrefedd

Bydd Ailgartrefu Cyflym ddod yn ddull diofyn i fynd i'r afael â digartrefedd a lleihau ei effeithiau niweidiol, drwy sicrhau fod pobl sy'n profi digartrefedd yn dod o hyd i dai yn fwy cyflym.

### Prif elfennau Ailgartrefu Cyflym

Mae Ailgartrefu Cyflym yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Tybir bod pawb yn 'barod am dŷ', gyda'r gefnogaeth gywir
- Mae pobl yn treulio cyn lleied o amser â phosibl mewn llety dros dro
- Pan fydd angen llety dros dro ar bobl, mae o safon uchel
- Mae pobl yn gallu cael mynediad i'r cartref iawn yn y lle iawn iddyn nhw
- I'r rhan fwyaf o bobl, cartref prif ffrwd annibynnol fydd y dull diofyn, ond efallai y bydd eraill yn dewis llety â chymorth
- Mae pobl yn gallu cael mynediad at gymorth aml-asiantaeth o ansawdd uchel, wedi'i deilwra i anghenion unigol, lle bo angen

### Pwy all elwa o Ailgartrefu Cyflym?

Dylai pawb sy'n profi neu mewn perygl o fod yn ddigartref elwa o ailgartrefu cyflym a chael cymorth i ddod o hyd i gartref sefydlog cyn gynted â phosibl. Bydd bob unigolyn angen lefelau gwahanol o gymorth i gynnal eu cartref. Ni fydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai pobl, efallai y bydd angen cymorth tymor byr ar rai pobl, a bydd angen cefnogaeth dwyster uwch ar gyfran fach, cefnogaeth aml-asiantaeth (Tai yn Gyntaf).

### Manteisio Ailgartrefu Cyflym

Mae nifer o fanteision o Ailgartrefu Cyflym:

- Lleihau cysgu allan
- Lleihau digartrefedd ailadroddus
- Lleihau gwariant cyhoeddus ar lety dros dro drud
- Lleihau effeithiau ansefydlogi ac ymylol digartrefedd hir neu arosiadau hir mewn llety argyfwng/dros dro
- Gwella ansawdd bywyd a chanlyniadau iechyd pobl, gan arwain at arbedion i wasanaethau cyhoeddus

### Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym

Gofynnir i holl Awdurdodau Lleol ddatblygu cynllun 5 mlynedd sy'n rhoi'r prif gamau o sut fyddent yn symud tuag at ddull Ailgartrefu Cyflym. Rhaid i brif ganolbwynt y dull Ailgartrefu Cyflym fod i atal digartrefedd. Os nad yw atal yn gweithio, y nod yw darparu llety sefydlog

mor gyflym â phosibl.  Bydd pob Awdurdod Lleol yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu a gweithredu eu Cynllun er mwyn mynd i'r afael â'r prif heriau yn eu hardal.

**Elfennau allweddol y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym**

- Dealltwriaeth o lefel yr anghenion tai a chymorth
- Faint a pha fath o dai sydd ei angen er mwyn cartrefu pobl yn barhaol
- Pwy sydd angen cefnogaeth, ac ar ba lefel, i gynnal eu tenantiaeth
- Dull cydgysylltiedig a strategol o nodi ffynonellau tai
- Rhaglenni adeiladu tai sy'n ystyried yr angen am dai
- Polisïau dyrannu sy'n blaenoriaethu aelwydydd heb gartref parhaol
- Ymrwymiad aml-asiantaeth i ddarparu cefnogaeth
- Ystod gynhwysfawr o weithgareddau atal digartrefedd
- Pobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd yn cael rôl wrth lywio a chyd-gynhyrchu cynlluniau a gwasanaethau o fewn y newid i Ailgartrefu Cyflym

## Adran Dau - Dull Conwy i Ailgartrefu Cyflym

**Gweledigaeth Ailgartrefu Cyflym Conwy:**

*'Mae gwasanaethau allweddol yn defnyddio dull cydlynol ar gyfer gweithgareddau atal digartrefedd i sicrhau bod digartrefedd yn beth prin yng Nghonwy.  Lle nad oes modd atal digartrefedd, gall pobl symud i lety sefydlog yn gyflym gan ddefnyddio cyn lleied o lety dros dro â phosib.'*

**Mae pedwar amcan allweddol i gyflawni hyn:**

- Trawsnewid ansawdd a defnydd o lety dros dro
- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy
- Sicrhau bod cefnogaeth tai ar gael i'r rhai sydd ei hangen
- Cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau allweddol i sicrhau bod atal digartrefedd yn cael ei flaenoriaethu ar draws pob gwasanaeth

**Amcan 1: Trawsnewid ansawdd a defnydd o lety dros dro**

Gweledigaeth Conwy ar gyfer llety dros dro:

*'Defnyddir llety dros dro i fodloni anghenion tai tymor byr a sicrhau urddas a pharch ar gyfer preswylwyr'.*

Heriau Allweddol:

- Lefel bresennol o alw am lety
- Newidiadau i'r asesiad o angen blaenoriaethol
- Dewisiadau symud ymlaen
- Safonau llety dros dro
- Gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016
- Cyllid Llywodraeth Cymru

**Cyfanswm yr aelwydydd newydd sy'n symud i lety dros dro bob blwyddyn:**

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr aelwydydd** | 221 | 237 | 518 | **458** |
| **- y nifer ohonynt sy'n aelwydydd â phlant** | 62 | 69 | 67 | **76** |

**Cyfanswm yr aelwydydd sy'n byw mewn llety dros dro ar 31 Mawrth bob blwyddyn:**

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Pob math o lety dros dro** | 144 | 144 | 258 | **279** |
| **- y nifer ohonynt sy'n deuluoedd â phlant** | 78 | 75 | 72 | **89** |
| **Mewn llety gwely a brecwast** | 39 | 36 | 135 | **128** |
| **- y nifer ohonynt sy'n deuluoedd â phlant** | 9 | 9 | 12 | **19** |

Camau i fynd i'r afael â'r heriau:

Y cam gweithredu allweddol i leihau'r defnydd o lety dros dro yw lleihau'r galw. Byddwn yn:


- Cynyddu'r capasiti o fewn y tîm atal digartrefedd
- Adolygu'r polisi dyrannu
- Adolygu aelwydydd mewn llety dros dro er mwyn datblygu cynllun ar gyfer bob un a fydd yn hwyluso'r broses o symud ymlaen i lety sefydlog
- Adolygu safonau eiddo gwely a brecwast er mwyn sicrhau bod pob un yn bodloni'r Gorchymyn Addasrwydd ac ystyried newid rhai gyda llety safon uwch (en suite fel lleiafswm)
- Adolygu cyfleusterau cymorth a ddarperir ar gyfer aelwydydd gyda phlant sy'n byw mewn llety Gwely a Brecwast er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o effeithiau niweidiol
- Gweithio i leihau'r nifer o drosglwyddiadau ar gyfer aelwydydd o fewn llety dros dro
- Ystyried opsiynau cyllid i ddatblygu dulliau newydd ar gyfer darparu llety dros dro tymor byr, gan gynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru
- Casglu adborth gan breswylwyr ar eu profiad o lety dros dro er mwyn llywio darpariaeth newydd

**Amcan 2: Cynyddu nifer y tai fforddiadwy**

Heriau Allweddol:

- Lefel bresennol o alw am lety
- Cyfradd Lwfans Tai Lleol
- Y sector rhentu preifat - cost a lleihau maint
- Disgwyliadau cwsmeriaid
- Gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016
- Cyllid Llywodraeth Cymru

**Mae cartrefi tai cymdeithasol newydd yn cael eu hadeiladu bob blwyddyn, ond mae'r bwlch rhwng y cyflenwad a'r galw yn cynyddu:**




Mae rhent y sector rhentu preifat yn cynyddu, ac yn symud ymhellach i ffwrdd o gyfradd Lwfans Tai Lleol. Rhwng Mai ac Awst 2021 daeth Sefydliad Bevan o hyd i 73 eiddo yn unig wedi'u hysbysebu am rent yn y Sir, oll gyda lefelau rhent uwch na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol.

| Maint yr Eiddo | Cyfradd Lwfans Tai Lleol wythnosol £ |
|---|---|
| Llety a rennir | 58.95 |
| 1 ystafell wely | 80 |
| 2 ystafell wely | 113.92 |
| 3 ystafell wely | 132.33 |
| 4 ystafell wely | 166.85 |

Camau i fynd i'r afael â'r heriau:

- Cynhyrchu gwybodaeth gyfredol mewn perthynas ag anghenion tai lleol i gefnogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chynlluniau datblygiadau sector preifat
- Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai cymdeithasol presennol
- Defnyddio cyfleoedd ariannu i:
  - ddatblygu tai fforddiadwy newydd
  - dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd fel cartrefi fforddiadwy
  - cynyddu'r cyflenwad o lety sector rhentu preifat
- Sefydlu rhagor o dai a rennir ar gyfer pobl dan 35 oed
- Ystyried newid llety dros dro ar brydles i dai sefydlog
- Ystyried adolygu polisïau cynllunio presennol neu weithredu polisïau newydd a fydd yn cynyddu argaeledd llety'r Sector Rhentu Preifat

**Amcan 3: Sicrhau bod cefnogaeth tai ar gael i'r rhai sydd ei hangen**

Heriau Allweddol:

- Ymgysylltu - y rhai nad ydynt eisiau ymgysylltu
- Darpariaeth o gymorth amlasiantaeth priodol

**Cafodd anghenion cymorth 265 o aelwydydd (75 o aelwydydd gyda phlant a 190 o bobl sengl) oedd yn byw mewn llety dros dro ym Mai 2022 eu hasesu:**

| Grŵp Cymorth | Opsiwn Tai a Argymhellir | Cymorth a Argymhellir | Nifer yr achosion (gan gynnwys %) |
|---|---|---|---|
| **Isel/dim** | Tŷ prif ffrwd | Cymorth unigol | Unigolion sengl - 89<br>Teuluoedd - 51<br>Cyfanswm - 140 (52.8%) |
| **Canolig** | Tŷ prif ffrwd | Cymorth unigol, gan gynnwys cymorth amlasiantaeth o bosibl | Unigolion sengl - 51<br>Teuluoedd - 24<br>Cyfanswm - 75 (28.3%) |
| **Uchel** | Tŷ prif ffrwd | Tai<br>Cefnogaeth ddwys/gyntaf yn ôl yr angen, gan gynnwys cymorth amlasiantaeth | Unigolion sengl - 39<br>Cyfanswm - 39 (14.7%) |
| **Dwys (24/7)** | Tai â chymorth | Cefnogaeth breswyl | Unigolion sengl - 11<br>Cyfanswm - 11 (4.2%) |

Camau i fynd i'r afael â'r heriau:

- Ystyried yr angen am ganolfan brysbennu
- Adolygu'r ddarpariaeth tai cymorth i sicrhau bod yr angen a nodwyd yn cael ei fodloni
- Adolygu gwasanaethau cefnogaeth yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn bodloni'r angen a nodwyd

**Amcan 4: Cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau allweddol i sicrhau bod atal digartrefedd yn cael ei flaenoriaethu ar draws pob gwasanaeth**

Bydd hyn yn galluogi i ganlyniadau atal cynradd ac eilradd gwell i gael eu cyflawni

Heriau Allweddol:

- Nid yw holl fudd-ddeiliaid wedi ymgysylltu'n ddigonol - ydyn nhw'n gweld bod ganddynt rôl o fewn gweithgareddau atal digartrefedd?
- Nid yw rhai budd-ddeiliaid allweddol yn ymgysylltu ar y lefel gywir, ac fe allai hynny arwain at ddiffyg aliniad mewn blaenoriaethau

- Nid yw gwybodaeth bob amser yn cael ei rhannu rhwng budd-ddeiliaid allweddol ar yr amser cywir, ac fe allai hyn arwain at oedi yn y gwasanaeth mae cwsmeriaid yn ei dderbyn
- Nid yw gwybodaeth bob amser yn cael ei rhannu rhwng budd-ddeiliaid allweddol ar yr amser cywir, ac fe allai hyn arwain at oedi yn y gwasanaeth mae cwsmeriaid yn ei dderbyn

Camau i fynd i'r afael â'r heriau:

- Nodi budd-ddeiliaid allweddol ac adolygu eu rôl o ran gweithgarwch atal digartrefedd
- Adolygu ac alinio nodau strategol ar y cyd
- Adolygu sianeli cyfathrebu presennol rhwng budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys prosesau atgyfeirio a monitro canlyniadau

**Beth sydd ei angen i wneud Ailgartrefu cyflym yn realiti?**

- Cynnydd mewn tai fforddiadwy yn y sector tai cymdeithasol a thai rhentu preifat
- Dealltwriaeth dda o anghenion cymorth pobl sy'n profi digartrefedd
- Mynediad gwell i gymorth amlasiantaeth ar gyfer pobl sydd ei angen
- Gweithio mewn partneriaeth a chyfrifoldeb a rennir - Ni all Ailgartrefu Cyflym gael ei gyflawni drwy'r gwasanaethau tai yn unig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru. Mae digartrefedd yn anghynaladwy, yn symptom o farchnad dai gamweithredol ac ni ddylid ei oddef. Er y bu llawer o ymdrech yn y blynyddoedd diwethaf i wella atal digartrefedd, cynyddu opsiynau tai cymdeithasol a chynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy i'r eithaf, mae maint yr her sy'n ein hwynebu i wneud Ailgartrefu Cyflym yn realiti yn gofyn am newid sylweddol mewn ymateb, a dull partneriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu *Ailgartrefu Cyflym: canllawiau - Sut y byddwn yn helpu'r rhai sy'n profi digartrefedd i ddod o hyd i dai sefydlog yn gynt.* Cyhoeddwyd 24 Awst 2022

Y Cam Nesaf: Sesiwn ymgynghori ar-lein ar gyfer partneriaid allweddol ar 26 Hydref 2022 am 10am

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â strategaethtai@conwy.gov.uk

Neu Jude Horsnell: 01492 574517